Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG45584**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 (“Rheoliadau drafft 2022”)

Ymgynghoriad ar reoliadau drafft i ddisodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010.

.

Medi 2022

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-805-7

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau drafft 2022") y bwriedir iddynt ddisodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010.

## Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae’r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru


## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymatebion a’r copïau o holl ddogfennau’r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: dolen

**Cynnwys**

Cyflwyniad ....................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Cynigion ........................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Ymgysylltu ......................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Trosolwg o’r ymatebion ........................................................................................ 5
Crynodeb o’r ymatebion ....................................................................................... 5
Cwestiwn 1: Troseddau Ychwanegol ................................................................... 5
Cwestiwn 2: Gorchmynion Gofal a Goruchwylio .................................................. 7
Cwestiwn 3: Anghymhwyso ar sail cysylltiad........................................................ 8
Cwestiwn 4: Effaith ar y Gymraeg ........................................................................ 9
Cwestiwn 5: Materion eraill ................................................................................ 10
Canlyniadau'r Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf ......... 10

## Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad ar Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 (“Rheoliadau drafft 2022”) ar 31 Mawrth 2022 am gyfnod o 12 wythnos.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft 2022 y bwriedir iddynt ddisodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”).

Mae Rheoliadau 2010 yn nodi’r categorïau o bobl sydd wedi’u hanghymhwyso rhag cofrestru yng Nghymru, fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989. Ni chaiff pobl sydd wedi’u hanghymhwyso weithredu fel gwarchodwyr plant yng Nghymru, darparu gofal dydd na bod ynghlwm wrth reoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd. Ni ddylid eu cyflogi ychwaith mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd. Yn syml, mae’r rheoliadau o gymorth i liniaru’r risg o niwed i blant sy’n mynychu lleoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru.

Roedd angen diweddaru Rheoliadau 2010 i adlewyrchu datblygiadau yn y gyfraith ac i sicrhau eu bod yn decach i bawb. At y diben hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reoliadau drafft 2022 ac ymgynghorwyd ar y newidiadau arfaethedig dros gyfnod ymgynghori o 12 wythnos, gan ddod i ben ar 23 Mehefin 2022.

## Cynigion

Mae Rheoliadau drafft 2022 yn diweddaru Rheoliadau 2010 er mwyn adlewyrchu’r gyfraith gyfredol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a’r tiriogaethau sy’n ddibynnol ar y goron sef Ynys Manaw, Jersey a Guernsey. Mae’r diwygiadau yn adlewyrchu nifer fach o droseddau newydd ac yn cynnwys newidiadau i rai cyfeiriadau at ddeddfwriaeth er mwyn eu diweddaru.

Caiff y newidiadau polisi a ganlyn eu hadlewyrchu yn Rheoliadau drafft 2022;

- nad yw unigolion sy’n ofalwyr maeth, gofalwyr sy’n berthnasau neu rieni sy’n mabwysiadu yn cael eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd (na rhag gweithio yn y lleoliadau gofal plant hyn) os ydynt yn gofalu am blentyn sy’n destun gorchymyn gofal neu oruchwylio neu sydd wedi bod yn destun gorchmynion felly yn y gorffennol. Fodd bynnag nid yw’r newid hwn yn cynnwys sefyllfa gofalwr maeth, gofalwr sy’n berthynas na rhiant sy’n mabwysiadu y mae eu gweithredoedd nhw wedi arwain at wneud y gorchymyn.
- nad yw unigolion a oedd unwaith yn destun gorchmynion gofal neu oruchwylio eu hunain yn cael eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd (na rhag gweithio yn y lleoliadau hyn). Ni fydd y newid hwn, fodd bynnag, yn gymwys i unigolion oedd eu hunain yn destun gorchmynion o’r fath ac y mae eu gweithredoedd nhw wrth ofalu am eu plant eu hunain wedi arwain at wneud gorchmynion o’r fath.

- dileu'r ddarpariaeth "anghymhwyso ar sail cysylltiad" o ran darparwyr gofal dydd sy'n gweithio mewn lleoliadau sydd ar wahân i lle maent yn byw. Mae hyn yn golygu na chaiff darparwyr gofal dydd eu hanghymhwyso rhag cofrestru na rhag gweithio mewn gofal plant oherwydd gweithredoedd rhywun y maent yn byw gyda hwy, neu rywun sy'n gweithio yn eu cartref.

**Ymgysylltu**

Gwahoddwyd barn pobl fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 31 Mawrth a 23 Mehefin 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd cyfle i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, ar e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu Saesneg.

Gallai darparwyr gofal plant ymateb i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol ac roedd modd iddynt hefyd gymryd rhan mewn gweithdai ar-lein er mwyn bwydo i'r ymateb a gyflwynwyd gan gonsortiwm gofal plant Cwlwm[1]. Bu Cwlwm yn rhedeg ac yn hwyluso'r sesiynau a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd ar 10 Mai (15 o warchodwyr plant yn bresennol) ac 11 Mai (24 o ddarparwyr gofal dydd yn bresennol).

Mae'r ymatebion o'r digwyddiadau hyn wedi eu hymgorffori i un ymateb gan Cwlwm. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i Cwlwm a'r darparwyr gofal plant wnaeth ymgysylltu yn y sesiynau hyn a oedd wedi eu teilwra yn ystod yr ymgynghoriad, a darparu eu hadborth.

**Trosolwg o'r ymatebion**

Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb i'r ymgynghoriad. O'r rhain, daeth pump drwy holiadur ar-lein, a thri ar e-bost. Roedd pedwar o'r ymatebwyr am aros yn ddienw. O'r gweddill, roedd dau gan awdurdodau lleol, un gan Cwlwm (gan gynnwys yr adborth cyfun o'r gweithdai gofal dydd a gwarchodwyr plant), ac un gan Gomisiynydd Plant Cymru.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Mae'r adran ganlynol yn manylu ar yr ymatebion a'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 1: Troseddau Ychwanegol**

Hoffem wybod eich barn ar y diweddariad i'r rhestr o droseddau yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 sy'n anghymhwyso pobl rhag cofrestru.

---

[1]Consortiwm gofal plant yw Cwlwm sy'n cynnwys y pum sefydliad gofal plant arweiniol yng Nghymru. Mudiad Meithrin, Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Chlybiau Plant Cymru.

**a) A oes unrhyw droseddau nad ydych yn credu y dylid eu cynnwys?**

Os “oes”, pa un/rai

| Oes | Nac oes |
|---|---|
| - | 8 |

Roedd yr wyth ymateb i’r cwestiwn hwn yn cytuno gyda chynnwys y troseddau ychwanegol arfaethedig (100%).

Roedd ymateb Cwlwm ar ran darparwyr gofal plant yn nodi rhai sylwadau ychwanegol am y posibilrwydd o edrych ar reoliadau gofal plant gwledydd eraill er mwyn gweld a ydynt yn rhestru unrhyw droseddau y dylid eu cynnwys yn ein Rheoliadau; codwyd pwynt cyffredinol hefyd ar allu pobl wedi’u hanghymhwyso i fedru herio eu hanghymhwystra os nad oeddent bellach yn berygl i blant.

Mynegwyd rhai pryderon am sut gallai Bil newydd yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2019 – 21 effeithio ar sut caiff gweithredu gwleidyddol ei weld a’r potensial i’w gynnwys o fewn cwmpas troseddau sy’n ymwneud â therfysgaeth.

**b) A oes troseddau eraill nad ydynt wedi'u rhestru y credwch y dylid eu rhestru yn atodlenni 1 a 3?**

Os “oes”, pa un/rai

| Oes | Nac oes |
|---|---|
| 2 | 6 |

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd (75%) yn credu y dylid rhestru unrhyw droseddau eraill yn atodlenni 1 a 3.

O’r ddau ymatebwr (25%) a ddywedodd oes, awgrymodd un ymateb y dylid cynnal ymarfer cymharu er mwyn dadansoddi’r gweithdrefnau fetio o fewn y gwasanaethau cymdeithasol/heddlu a sefydliadau eraill i’r cyhoedd sy’n ymwneud â phobl agored i niwed neu blant.

Daeth yr ymateb arall oedd yn dweud oes gan Cwlwm. Roeddent yn cynnig y dylid adolygu’r rheoliadau a’u diweddaru yng ngoleuni newidiadau i’r gyfraith yn rheolaidd. Ni awgrymwyd troseddau ychwanegol penodol, ond rhoddodd Cwlwm yr adborth canlynol:

- Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 – gan gydnabod bod y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn drosedd cyflenwi sylweddau anghyfreithlon i blentyn mae’n bosibl bod troseddau eraill yn ymwneud â chyffuriau y gellid eu cynnwys yn y Rheoliadau.
- Cam-drin domestig – mwy o eglurder ac ystyriaeth o droseddau cam-drin domestig a diogelu plant o dan eu gofal, amlygwyd hyn fel rhywbeth arbennig o berthnasol i warchodwyr plant, o ystyried natur eu gwasanaeth a’r

amgylchiadau wrth weithredu o safle domestig gan ddod â phlant i gysylltiad ag eraill yn y cartref.

- Stelcian/aflonyddu/seiberfwlio (gan gynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol) – mynegwyd pryderon am ba mor gyflym y mae pethau'n datblygu o ran y cyfryngau cymdeithasol a'r niwed y gallai achosi i blant. Teimlid bod hwn yn faes lle roedd angen cymorth ac arweiniad ar y sector gofal plant wrth ddelio ag unrhyw newidiadau a wneir i'r gyfraith.

- Troseddau yfed a gyrru – ystyried y posibilrwydd o'u cynnwys yn y Rheoliadau.

**Cwestiwn 2: Gorchmynion gofal a goruchwylio**

Rydym wedi nodi ein cynlluniau ar gyfer eithriadau rhag anghymhwyso o ran Gorchmynion gofal a goruchwylio lle nad oedd gan y sawl a oedd yn ymgeisio i gofrestru neu'r gwarchodwr plant neu'r darparwr gofal dydd cofrestredig unrhyw ran yn y rheswm dros wneud gorchymyn o'r fath.

**a) Ydych chi'n cytuno â'r eithriad mewn perthynas â gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy'n berthnasau) a rhieni sy'n mabwysiadu y mae'r plentyn yn eu gofal yn destun gorchymyn gofal a / neu oruchwylio, ond nid o ganlyniad i weithredoedd y gofalwyr maeth, y gofalwyr maeth sy'n berthnasau neu'r rhieni sy'n mabwysiadu?**

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| 8 | - |

Roedd yr holl ymatebwyr (100%) yn cytuno ac yn croesawu'r eithriad a amlinellwyd fel dull teg pan nad eu gweithredoedd nhw (y gofalwr maeth, y gofalwr sy'n berthynas neu'r rhieni sy'n mabwysiadu) yw'r rheswm dros y gorchymyn gofal.

Teimlid ei bod yn deg eithrio'r rhai nad ydynt wedi achosi'r rheswm dros y gorchymyn gofal ond a effeithir ganddo. Ystyrid hefyd y byddai hyn yn cefnogi mwy o ofalwyr maeth i ddod yn warchodwyr plant cofrestredig ac i'r gwrthwyneb ac na fyddai'n tanseilio diogelwch plant.

**b) Ydych chi'n cytuno â'r eithriad mewn perthynas â phobl sydd am gael eu cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd ond a oedd yn destun gorchymyn gofal a / neu oruchwylio eu hunain pan oeddent yn blentyn?**

| Ydw | Nac ydw | Heb ymateb |
|---|---|---|
| 7 | - | 1 |

Roedd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno gyda'r eithriad arfaethedig. Byddai cael gwared â'r eithriad hwn yn dileu'r angen i wneud cais i wrthdroi'r penderfyniad ac yn hybu mwy o gynhwysiant a chyfleoedd ar gyfer cofrestru gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd.

Roedd y Comisiynydd Plant yn croesawu'r newidiadau arfaethedig, gan ystyried eu bod yn dileu unrhyw botensial am driniaeth annheg neu wahaniaethu yn erbyn rhai a fu unwaith yn destun gorchymyn gofal neu oruchwylio, pan nad oedd hyn yn berthnasol i'w hymddygiad neu eu gweithredoedd eu hunain.

Nododd nifer o ymatebwyr sylwadau i bwysleisio y dylai'r holl ffactorau perthnasol eraill barhau i gael eu hystyried cyn derbyn cais am gofrestriad.

**Cwestiwn 3: Anghymhwyso ar sail cysylltiad**

Rydym wedi nodi ein bwriad i gadw'r trefniadau anghymhwyso ar sail cysylltiad mewn perthynas â phobl sy'n dymuno gwneud cais i gofrestru fel gwarchodwr plant ar safleoedd domestig (hy gweithio o'u cartref) ond i ddileu'r elfen hon ar gyfer pobl sydd am gofrestru i ddarparu gofal dydd neu sydd eisoes wedi'u cofrestru i ddarparu gofal dydd ar safleoedd annomestig (hy pobl sydd yn arfer darparu gwasanaethau gofal plant ar safle nad yw'n yn gartref iddynt).

**a) Ydych chi'n cytuno <u>na ddylai'r</u> ddarpariaeth "anghymhwyso ar sail cysylltiad" fod yn berthnasol i bobl sy'n gwneud cais i gofrestru neu sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd fel darparwr gofal plant <u>ar safle annomestig</u>, fel y nodir yn rheoliad 8?**

| Ydw | Nac ydw | Ansicr |
|---|---|---|
| 5 | 2 | 1 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn (63%) yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad.

Fe wnaeth rhai oedd yn cefnogi'r cynnig, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, amlygu'r angen i wneud yn siŵr fod trefniadau diogelu yn eu lle er mwyn sicrhau bod polisïau mewn grym i reoli hyn a phresenoldeb unrhyw bersonél di-awdurdod yn y lleoliad.

Roedd Cwlwm yn ansicr ynghylch y newid arfaethedig i'r trefniadau anghymhwyso ar sail cysylltiad, a gallent weld y ddadl o blaid ac yn erbyn y newidiadau, a nodwyd yn eu hymateb;

- annheg eithrio neu anghymhwyso rhywun ar sail gweithgarwch troseddol rhywun arall
- mae cyfrifoldeb gan bobl gofrestredig o ran diogelu plant ac ymarferwyr, ac o dan rai amgylchiadau gallai eu bywyd cartref effeithio ar eu bywyd gwaith.
- Mae nifer o warchodwyr plant yng Nghymru sy'n gweithio gyda gwarchodwr plant arall ac felly nid ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn eu cartref eu hunain ond mewn eiddo domestig arall. O dan amgylchiadau o'r fath byddai'n decach i'r newidiadau arfaethedig i drefniadau anghymhwyso ar sail cysylltiad fod yr un mor berthnasol iddyn nhw ag y maent i leoliadau gofal dydd, o ystyried na fyddai'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r gwarchodwr plant dan sylw ar yr un safle â lle mae'r gofal plant yn digwydd.

- Mae nifer o leoliadau gofal plant yn gweithredu mewn eiddo a rennir neu adeiladau cymunedol sy'n golygu y gallai fod yn rhaid i bobl gofrestredig wneud gwaith gweinyddol gartref, gan arwain at achosion posib o dorcyfraith o ran data personol neu ddelweddau lle gallai'r person cysylltiedig gael mynediad at offer cyfrifiadurol. Tra byddai'r rhan fwyaf o bobl gofrestredig yn gofalu na allai aelod o'u cartref gael y mynediad hwn, mae posibilrwydd hefyd y gallai darparwr fod mewn perthynas lle mae eu partner yn eu cam-drin, yn eu gorfodi i weithredu mewn ffordd arbennig neu'n dylanwadu arnynt, , a bod hynny yn drech na'u harferion diogelu.

**b) Os "Nac ydw", ai eich dewis chi fyddai cadw'r elfen "anghymhwyso ar sail cysylltiad" mewn perthynas ag unigolion sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwyr gofal dydd neu ddarparwyr gofal dydd cofrestredig ar safleoedd annomestig yn ogystal ag i warchodwyr plant sy'n gweithio o'u cartref?**

Os Nage, pa ddull fyddech chi'n ei ffafrio, a pham?

| Ie | Nage | Ansicr |
|---|---|---|
| 2 | - | 1 |

Roedd dau o'r ymatebwyr am gadw trefniadau cyfredol anghymhwyso ar sail cysylltiad.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid cyflwyno "datganiad o gysylltiad" gan y byddai'n gyfrifoldeb mawr i leoliad reoli'r gofyniad hwn.

Roedd Cwlwm o'r farn, er mai bach fyddai'r risg i blant, y dylid cynnal asesiad risg trylwyr ar unrhyw newidiadau i reoliadau anghymhwyso ar sail cysylltiad a'u hystyried fesul achos.

**Cwestiwn 4: Effaith ar y Gymraeg**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Rheoliadau drafft 2022 y bwriedir iddynt ddisodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cwestiwn agored hwn yn adlewyrchu'r farn na fyddai diweddaru'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn cael effaith negyddol na chadarnhaol ar y Gymraeg.

Roedd sylwadau eraill a dderbyniwyd yn gyffredinol ac yn ymwneud â sut byddai'r diweddariad i'r rheoliadau yn cael effaith ar feysydd megis creu mwy o gyfleoedd i bobl ystyried gofal plant fel gyrfa; sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a materion ynghylch recriwtio a chadw staff, ac yn enwedig yr heriau o greu

mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### Cwestiwn 5: Materion eraill

> **Os hoffech godi unrhyw faterion mewn perthynas â Rheoliadau drafft 2022 nad ymdriniwyd â hwy'n benodol yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Galwodd yr ymgyngoreion am ganllawiau manwl i gefnogi Rheoliadau drafft 2022, yn nodi sut gallai pobl gofrestredig sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddiol. Awgrymodd ymatebwyr hefyd fwy o ganllawiau o ran arferion recriwtio diogel a sut i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag pobl ar wahân i'r rheini a gyflogir yn y lleoliad.

Roedd Cwlwm am gael sicrwydd fod yr un dulliau yn cael eu defnyddio o ran anghymhwyso ar sail cysylltiad mewn sectorau eraill sy'n gweithio gyda phlant, er enghraifft lleoliadau addysg.

### Canlyniadau Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

### Penderfyniadau allweddol

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod yr ymatebwyr yn bennaf o blaid y newidiadau a nodir yn Rheoliadau drafft 2022.

Gofynnodd ymatebwyr am ganllawiau i ategu'r Rheoliadau fel bod y gofynion rheoleiddiol sydd yn angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith yn eglur i bobl gofrestredig.

Yn ystod cyfnod ein hymarfer ymgynghori, mae adran 67A Deddf Troseddau Rhywiol 2003, sydd wedi ei chynnwys yn Atodlen 3 Rheoliadau drafft 2022, wedi ei diwygio i gynnwys trosedd ychwanegol a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2022 mewn perthynas â recordio delweddau o berson yn bwydo ar y fron. Mae'r drosedd hon yn cyd-fynd yn agos â'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â voyeuriaeth a thynnu llun i fyny sgert rhywun a amlygwyd yn yr ymgynghoriad ac a gefnogwyd gan yr holl ymatebwyr. Mae Rheoliadau drafft 2022 wedi eu drafftio mewn ffordd sy'n golygu y gellir cynnwys hyn ac unrhyw newidiadau pellach i adran 67A Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Dim ond os byddwn yn credu bod angen gwyro oddi wrth ddull a gymerir gan Lywodraeth y DU y byddwn yn ymgynghori ar ddiweddariadau pellach.

Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau drafft 2022 cyn eu gosod gerbron y Senedd yn ddiweddarach eleni, a byddwn yn sicrhau bod y canllawiau ategol yn rhoi eglurder i ddarparwyr ac yn gosod y gofynion penodol y mae angen iddynt eu bodloni er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Bydd y canllawiau yn egluro pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad gan gadarnhau er enghraifft y byddai'r newidiadau i'r ddarpariaeth Anghymhwyso ar sail Cysylltiad hefyd yn gymwys i warchodwyr plant sy'n gweithio yn rhywle ar wahân i'w cartref eu hunain.

Ein disgwyliad yw y bydd y Rheoliadau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan gymryd newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ehangach berthnasol sy'n effeithio arnynt i ystyriaeth.